**Prif Gynllunydd, y Gyfarwyddiaeth Gynllunio**
**Chief Planner, Planning Directorate**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref: qA1495798

Charlotte Harding
Prif Swyddog Cynllunio Rhanbarthol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
Y Ganolfan Ddinesig
Port Talbot
SA13 1PJ

Annwyl Charlotte

25 Mawrth 2026

**Cyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru Cytundeb Cyflawni Cynllun Datblygu Strategol**

**Rheoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynllun Datblygu Strategol) (Cymru) 2021**

Diolch am eich e-bost ar 24 Mawrth yn gofyn am gymeradwyaeth i'ch Cytundeb Cyflawni ar gyfer eich Cynllun Datblygu Strategol (SDP) yn dilyn cadarnhad drwy benderfyniad gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig (CJC) ar 24 Mawrth. Mae'r llythyr hwn mewn ymateb i gadarnhad ffurfiol o'r Cytundeb Cyflawni gan y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer Cynllun Datblygu Strategol a fydd yn cwmpasu'r cyfnod 2026-2051.

Mae dyletswydd statudol ar bob Cyd-bwyllgor Corfforedig yng Nghymru i baratoi Cynllun Datblygu Strategol . Mae bod â chynllun datblygu strategol cyfredol ar waith yn sail i'r holl system gynllunio yng Nghymru ac mae'n ategu ymrwymiad y Llywodraeth i ddatblygu a arweinir gan gynlluniau. Mae rheoli prosiectau yn effeithiol a thystiolaeth gyfredol yn hanfodol er mwyn sicrhau y gellir paratoi'r cynllun yn unol â'r amserlenni a nodir yn Nhabl 1 (paragraff 6.3) ac Atodiad 6 y Cytundeb Cyflawni. Mae'r amserlen hon a nodir yn y Cytundeb Cyflawni yn cyd-fynd â gofynion yn y Llawlyfr Cynlluniau Datblygu Strategol Drafft.

Mae'r Llywodraeth yn nodi'r costau ariannol a nodwyd er mwyn paratoi'r cynllun (paragraff 7.3) ac yn cydnabod pwysigrwydd ymrwymiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig bod y cronfeydd hyn gael eu darparu i baratoi'r cynllun, trwy gytundeb y Cytundeb Cyflawni hwn. Mae hyn yn

cynnwys yr ymrwymiad cyfredol ar gyfer blwyddyn ariannol 2026/27 ac ystyried y blynyddoedd sydd i ddod trwy'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (MTFP) sy'n cael eu datblygu.  Mater i'r Cyd-bwyllgor Corfforedig fydd dadansoddi'r costau cyffredinol hyn i bob Awdurdod Lleol ac Awdurdod Parc Cenedlaethol o fewn graddau daearyddol Cynllun Datblygu Strategol. Nodir hefyd yr adnoddau staffio a bennwyd i baratoi'r Cynllun Datblygu Strategol (paragraffau 7.4 i 7.7) ac ymrwymiad y Cyd-bwyllgor Corfforedig ar gyfer cyflawni'r gofynion staffio, neu gyfwerth.

Prawf cadernid y bydd y cynllun yn cael ei ystyried yn ei erbyn wrth iddo gael ei archwilio yw a yw'n cydymffurfio â'r Cytundeb Cyflawni y cytunwyd arno, gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau (CIS).  Bydd angen i'r cynllun hefyd ddangos ‘cydymffurfiaeth gyffredinol’ â Cymru'r Dyfodol: Y Cynllun Cenedlaethol 2040.

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu’r ymrwymiad a ddangoswyd gan Gyd-bwyllgor Corfforedig De-orllewin Cymru i baratoi Cynllun Datblygu Strategol. Mae eich Cytundeb Cyflawni a gyflwynwyd yn cynnwys dadansoddiad manwl o amseriad pob cam Cynllun Datblygu Strategol (Atodiad 6) gyda dyddiad mabwysiadu dangosol o fis Rhagfyr 2031.

Mae Llywodraeth Cymru yn cydnabod cymhlethdod paratoi Cynllun Datblygu Strategol ac y gallai fod rhywfaint o oedi o ran cyrraedd y cerrig milltir a osodir yn yr amserlen a nodir. Yn y Cytundeb Cyflawni cychwynnol, mae Llywodraeth Cymru o’r farn bod cyfnod oedi o 6 mis yn briodol.

Ar ôl ystyried y Cytundeb Cyflawni yr ydych wedi'i gyflwyno, gallaf **gadarnhau ein bod yn cytuno** i'r amserlen a nodir yn Nhabl 1, paragraff 6.3 ac Atodiad 6 fel y darperir ar ei chyfer gan Adran 60N(4) a 63(4) o Ddeddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 a Rheoliad 11 o Reoliadau Cynllunio Gwlad a Thref (Cynlluniau Datblygu Lleol) (Cymru) 2021.

Dylech nawr wneud yn siŵr bod y fersiwn gyhoeddedig o'ch Cytundeb Cyflawni ar gael i’r cyhoedd yn unol â’r gofynion a nodir yn Rheoliad 12.

Yn gywir



**Neil Hemington**
**Prif Gynllunydd**
**Chief Planner**